Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cymerau

**Ffordd Mela**
**Pwllheli**
**LL53 5AR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cymerau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cymerau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 293 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 232 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 33 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 23.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 53.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 25/04/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Cymerau yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, eu diwylliant a'u treftadaeth yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae'r staff ac aelodau'r corff llywodraethol yn ymrwymo i greu amgylchedd dysgu ysgogol a buddiol i'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn cefnogi ei gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â disgyblion ac maent yn eu hannog i roi o'u gorau. Maent yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n annog disgyblion i ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae buddiol. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sydd yn ei dro yn llesteirio gallu disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar, er prin yw'r cyfleoedd iddynt wella eu gwaith eu hunain yn dilyn adborth ysgrifenedig gan athrawon.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion ac yn eu cefnogi'n dda. Maent yn rhannu eu gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus â rhanddeiliaid sy'n gosod cyfeiriad strategol bwriadus ar eu cyfer. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n werthfawr at lwyddiant yr ysgol. Er bod gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o'u hysgol, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog i ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a safonau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth a chynnydd ym medrau disgyblion

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol

A3 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â defnydd o’r ardal leol er mwyn cyfoethogi’r cwricwlwm a Chymreictod disgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau sy’n cyfateb i’r hyn a ddisgwylir am eu cam datblygiad. Maent yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae medrau chwarae a dysgu’r disgyblion ieuengaf yn sefydlu’n dda ar fynediad i’r dosbarth meithrin. Maent yn gwrando’n astud ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau’n llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol trwy eu chwarae yn gadarn, er enghraifft wrth daflu bwyd i geg y ‘Lindysyn Llwglyd’.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn gwrando’n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Maent yn foesgar wrth ddilyn cyfarwyddiadau ac yn rhannu syniadau ag eraill yn synhwyrol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol, yn gynyddol hyderus a chywir. O ganlyniad, maent yn cyfathrebu â’i gilydd yn llwyddiannus mewn cyd-destunau amrywiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen ystod o destunau gyda lefel dda o gywirdeb. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o atalnodi, gan egluro pwysigrwydd atalnod ac atalnod llawn yn gywir wrth ddarllen ar goedd. Maent yn arddangos amrediad da o dechnegau darllen er mwyn adeiladu geiriau amlsillafog yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn trafod cynnwys llyfrau yn aeddfed gan egluro pa awduron sy’n apelio atynt ac yn eu denu i fwynhau darllen.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus drwy arbrofi a chreu marciau gydag adnoddau amrywiol. Wrth iddynt symud drwy’r dosbarthiadau dysgu sylfaen, maent yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn amrediad cyfoethog o ffurfiau. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn defnyddio eu medrau’n grefftus wrth ysgrifennu cân ar gyfer eisteddfod y Dewin. Yn ogystal, mae ychydig o ddisgyblion mwy abl Blwyddyn 2 yn creu straeon estynedig gan ddefnyddio amser gorffennol y ferf yn aeddfed, gydag ychydig yn dechrau defnyddio cwestiynau rhethregol syml i gyfoethogi eu gwaith yn hynod effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 i 6 yn ysgrifennu’n grefftus mewn amrediad eang o ffurfiau creadigol a ffeithiol. Maent yn arddangos medrau sillafu cadarn yn y ddwy iaith, ac yn gwneud defnydd o amrediad da o atalnodi i greu tensiwn er mwyn creu effaith ar y darllenydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu sgript sy’n cyfleu effaith boddi Cwm Tryweryn ar gymuned Capel Celyn gan ddefnyddio ystod dda o eirfa gyfoethog ac atalnodi effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion dysgu sylfaen yn datblygu medrau rhifedd cadarn mewn ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae ymarferol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o waith rhif ac yn defnyddio eu gwybodaeth yn gyson i ddatrys

problemau, er enghraifft wrth amcangyfrif hyd gwahanol offer yn y dosbarth, ac yna eu cymharu â'r mesuriad safonol cywir. Mae llawer yn mesur gan ddefnyddio centimetrau a milimetrau yn gynyddol gywir, ac yn adnabod onglau sgwâr mewn siapiau rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd yn gadarn. Maent yn darganfod arwynebedd a pherimedr siapiau yn hyderus, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn darganfod arwynebedd siapiau cyfansawdd mwy cymhleth yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn datrys problemau yn fedrus wrth ymchwilio i'r cynhwysion iachaf ar gyfer creu brecwast maethlon am gost benodol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio amrediad eang o offer yn hyderus i'w cefnogi â'u gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio apiau'n hyderus i osod lluniau o'u hwynebau ar gymeriadau o straeon Rala Rwdins. Maent yn peintio'r cefndir yn ddigidol er mwyn creu darluniau gorffenedig hynod effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio offer a meddalwedd yn fedrus, er enghraifft wrth greu a golygu fideos ffitrwydd defnyddiol er mwyn hyrwyddo ymarfer corff. Ym Mlwyddyn 5 a 6, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a digidol yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau go iawn, er enghraifft wrth adeiladu a rhaglennu traciwr er mwyn mesur faint o gamau byddai person yn eu cerdded mewn amser penodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos medrau creadigol cadarn. Mae disgyblion y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn cyfansoddi caneuon am y Dewin Dwl gan ddangos ymwybyddiaeth dda o draw a churiad. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn creu gwaith celf yn effeithiol er mwyn efelychu arddull arlunwyr enwog lleol. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus wrth gydweithio â disgyblion ar draws yr ysgol i greu darluniau trawiadol a lliwgar o'r planedau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn hynod gwrtais â'i gilydd ac oedolion. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol i gefnogi'r amgylchedd deuluol a chyfeillgar yr ysgol, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygiad lles emosiynol eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn gwarchod ac yn cefnogi lles y rhai ieuengaf trwy eu cynllun 'Ffrindiau Ffeind'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach gan ddeall pwysigrwydd effaith ymarfer corff arnynt. Mae llawer o'r disgyblion yn teithio i'r ysgol trwy gerdded neu feicio gyda'r 'bws beics', sy'n cael effaith gadarn ar eu ffitrwydd a'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i leihau effaith llygredd ar yr amgylchedd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol ac yn manteisio ar gyfleoedd i drafod eu teimladau. Er enghraifft, maent yn sgwrsio'n naturiol am gyfnodau yn ddyddiol er mwyn trafod 'teimladau heddiw' gan fynegi eu hemosiynau neu siarad am unrhyw bryderon mewn modd sensitif. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol

bod staff ar gael i drafod neu rannu cyngor a chynhaliaeth mewn achos o bryder. Mae gan y rhan fwyaf wybodaeth dda am sut i gadw’n ddiogel ar-lein wrth ddysgu mewn gweithgareddau buddiol i’w hatgoffa o’r rheolau. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn dwysáu eu dealltwriaeth wrth greu cyfres o reolau diogelwch tra’n dylunio posteri ar gyfer cystadleuaeth er mwyn rhannu ag eraill o fewn yr ysgol a thu hwnt.

Mae aelodau’r cynghorau ysgol yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn dechrau cyfrannu’n werthfawr at waith yr ysgol. Mae’r disgyblion hynaf yn gwrando ar gyfraniadau eu cyfoedion yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys cefnogi gwaith y cyngor eco i leihau’r defnydd o ddŵr ar draws yr ysgol, er enghraifft. Yn ogystal, mae’r ystod dda o wahanol gynghorau yn cefnogi agweddau pwysig o fywyd a gwaith yr ysgol, gan gynnwys hybu iechyd a lles disgyblion trwy waith y grŵp beicio a chefnogi medrau digidol trwy waith y ‘tîm tec’. Mae hyn yn cyfrannu’n werthfawr at ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd a dylanwad eu cyfraniad i fywyd yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae’r rhan fwyaf yn ymgymryd â’u tasgau’n  gydwybodol gan ganolbwyntio’n dda am gyfnodau penodol. Maent yn parchu cyfraniad eu cyfoedion gan ryngweithio’n gwrtais â’i gilydd yn ystod y sesiynau dysgu a chwarae, er enghraifft wrth i’r disgyblion ieuengaf chwarae rôl yng ‘Nghaffi Largo’ gan werthu nwyddau a thrin a thrafod arian yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf yn ymroi i’w tasgau’n frwdfrydig gan ddyfalbarhau wrth ymateb i’r heriau. Yn yr arferion gorau, mae’r disgyblion yn cydweithio a chefnogi ei gilydd yn effeithiol i ddatrys problemau yn lled annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus. Maent yn ymateb yn dda i adborth llafar athrawon a chymorthyddion er mwyn gwella eu gwaith. Yn yr arfer orau, mae’r disgyblion hynaf yn ailymweld â’u gwaith yn briodol er mwyn gwella’r cynnwys yn dilyn adborth ysgrifenedig. Er hyn, nid yw staff yn defnyddio’r dull hwn yn ddigon cadarn ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn ddigon cyson i adborth ysgrifenedig.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru wedi eu cyflwyno’n gadarn ac wrth wraidd gweledigaeth arweinwyr. Maent yn sefydlu trefniadau cynllunio buddiol sydd wedi eu seilio ar feysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, athrawon a chymorthyddion yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu sy’n cyfrannu’n dda at ddatblygu medrau a gwybodaeth disgyblion. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cydnabod pwysigrwydd mynediad cyfartal i bawb ac yn hyrwyddo llwyddiannau merched mewn cymdeithas yn effeithiol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu amrediad effeithiol o weithgareddau ar draws y cwricwlwm sy’n ymateb yn llwyddiannus i fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion. Nodwedd gref o’r ddarpariaeth yw’r defnydd o’r ardal leol fel sbardun i themâu tymhorol, gyda phwyslais ar ddysgu am ddaearyddiaeth, treftadaeth a diwylliant Pwllheli a Phen Llŷn. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu ymweliadau buddiol i’r disgyblion ymweld â’r lleoliadau lle cafodd eu dosbarthiadau eu henwau, er enghraifft ‘Porth Neigwl’, ‘Porthdinllaen’ a ‘Nant Gwrtheyrn’, gan wahodd arbenigwyr lleol i drafod cefndir a hanes yr ardal. Mae hyn yn dwysáu diddordeb a gwybodaeth y disgyblion am eu cynefin yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae’r disgyblion hynaf wedi elwa’n sylweddol ar y gwaith o greu Sianti newydd wedi ei seilio ar gerdd Largo gan y bardd Cynan, a’i gosod ar dôn draddodiadol. Maent yn

datblygu medrau ymchwil ac yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwerthfawrogi hanes eu hardal a'i gynnal ar gof a chadw yn fedrus.

Mae egwyddorion dysgu sylfaen wedi eu sefydlu'n briodol ac mae amrediad o brofiadau buddiol yn cael eu cynnig i ddisgyblion yn yr ardaloedd dysgu a chwarae tu mewn a thu allan i'r dosbarthiadau. Mae'r profiadau hyn yn ymateb yn addas i ddiddordebau'r disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu ar adegau sydd yn ei dro yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau a datblygu medrau dysgu annibynnol. At ei gilydd, mae athrawon Blwyddyn 3 i 6 yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu buddiol sy'n darparu her briodol ar gyfer yr ystod gallu ar draws y dosbarthiadau. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion wneud dewisiadau am yr heriau yr hoffent eu cwblhau, ac o ganlyniad, maent yn adeiladu hyder a dygnwch wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Er hyn, nid yw'r arfer hon wedi datblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu ac adnoddau er mwyn sbarduno diddordeb y disgyblion a datblygu eu medrau. Maent yn creu eu dosbarthiadau yn amgylcheddau ysgogol lle gall disgyblion ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Yn ddieithriad, mae gan athrawon a chymorthyddion berthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn fwriadus, yn enwedig wrth ymestyn disgyblion mwy abl. Mae athrawon yn defnyddio arsylwadau a gwybodaeth am gynnydd ym medrau disgyblion i gynllunio profiadau dysgu a chwarae buddiol ar eu cyfer.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chymorthyddion yn holi'r disgyblion yn fedrus er mwyn datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth. Maent yn siarad Cymraeg yn raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i siarad yr iaith ar lafar yn gywir a chyson, yn enwedig yn y dosbarthiadau ieuengaf. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chymorthyddion yn cynnig adborth llafar buddiol er mwyn annog y disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Er hyn, yn dilyn adborth ysgrifenedig, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau cyfleoedd addas i ddisgyblion wella eu gwaith yn annibynnol nac i werthuso eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn ddigon cyson.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi gan bob un disgybl. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd ynghyd â lles emosiynol disgyblion yn allweddol i'w gwaith. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn glir ar draws yr ysgol gyfan sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hapusrwydd a'u lles. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau cadarnhaol bron bob disgybl at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r defnydd effeithiol o adnoddau fel y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau maeth hefyd yn adlewyrchu ethos cadarnhaol a chynhwysol yr ysgol ac ymrwymiad y staff i gefnogi anghenion lles emosiynol a chymdeithasol bob disgybl.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ag ADY. Mae'r cydlynydd yn cyflawni ei rôl yn dda ac yn cefnogi'r athrawon i greu cynlluniau unigol ar gyfer y disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Maent yn gosod targedau personol buddiol ar gyfer y disgyblion hyn ac

yn gwerthuso’r cynnydd yn rheolaidd er mwyn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae’r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn derbyn arweiniad a chyngor arbenigol i gefnogi’r disgyblion sy’n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n agos ag arbenigwyr iaith a lleferydd yr awdurdod lleol er mwyn derbyn hyfforddiant a chyngor ar sut i gefnogi disgyblion gyda nam ar eu lleferydd. Yn ogystal, mae athrawon yn addasu dulliau dysgu ac addysgu yn effeithiol er mwyn ymateb i anghenion unigol disgyblion, er enghraifft trwy recordio a chyflwyno eu gwaith yn electronig gan ddefnyddio nodyn llais er mwyn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau dosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion wedi ymchwilio i faneri gweledydd a chredoau allweddol y byd fel rhan o’u gwaith ar Gwpan y Byd pêl-droed. Mae’r athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion leisio’u barn ar faterion cyfoes ac i ddylanwadu ar waith y dosbarth trwy ddilyn trywydd yn ôl yr angen, er enghraifft wrth ddarganfod mwy am effaith daeareg ar ddaeargrynfeydd yn Nhwrci. Yn ogystal, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i drafod eu hawliau a datblygu eu dealltwriaeth o hawliau’r plentyn ar draws y byd. Mae hyn yn cynnwys dysgu am bwysigrwydd hawliau cyfartal a phwysigrwydd herio ystrydebau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi dysgu am hyn trwy eu gwaith ar thema ‘Genod Gwych a Bechgyn Bendigedig’ gan astudio bywydau Cymry enwog, drwy ddysgu am anturiaethwraig, athletwraig eithaf a chyflwynwraig deledu enwog fel un o ferched cŵl Cymru.

Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd hynod fuddiol i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol. Mae’r cysylltiadau agos â’r ardal leol yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd rôl bwysig ym mywyd yr ardal, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cyngerdd i groesawu’r Eisteddfod Genedlaethol. Maent hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol trwy ymweld â, a chydweithio ag, artistiaid enwog lleol i greu eu gwaith celf eu hunain. Yn ogystal, mae athrawon yn trefnu achlysuron arbennig i blant gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o bwysigrwydd helpu eraill. Mae staff yn darparu ystod eang o grwpiau llais y disgybl sy’n cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf a chyson o ddiogelu ac mae’r trefniadau ar gyfer monitro ac hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn gadarn. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu sut i gadw’n ddiogel ar-lein sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer a’u dealltwriaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth wedi sefydlu ethos tîm cadarnhaol ar draws yr ysgol sy’n sicrhau bod staff yn ymrwymo’n llawn i gefnogi ei gilydd ac i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion.

Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid i greu gweledigaeth glir sy'n cael ei hadlewyrchu'n effeithiol trwy'r arwyddair 'Lle daw dwy afon yn un lli' a gwerthoedd yr ysgol. Mae gwerthoedd parch, cydweithio, ymdrech a dyfalbarhad yn ogystal â balchder yn eu Cymreictod a'u hardal yn deillio o ddyheadau cytûn arweinwyr, staff a'r disgyblion. Mae hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer holl waith yr ysgol ac yn adlewyrchu ymrwymiad y pennaeth, staff a llywodraethwyr i gefnogi ac ymateb yn llawn i anghenion bob disgybl.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain. Maent yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion gan sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth bwrpasol, fel y bo angen. Mae arweinwyr yn dosrannu rolau a chyfrifoldebau yn llwyddiannus sy'n sicrhau bod staff yn ymrwymo i gynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion ar draws yr ysgol. Maent wedi sefydlu perthnasoedd buddiol â rhieni sy'n cyfrannu'n dda at eu gallu i gefnogi'u plant yn y cartref. Er enghraifft, mae staff y dosbarthiadau ieuengaf yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni trwy ddefnyddio ap buddiol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfle i rieni drafod unrhyw faterion gydag arweinwyr ac athrawon. O ganlyniad, maent yn ymateb yn brydlon i unrhyw faterion sydd angen sylw.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o ystod o drefniadau hunanwerthuso sy'n cynnwys craffu ar lyfrau, canfod barn disgyblion ac arsylwi ar y dysgu ac addysgu trwy deithiau dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr a chydlynwyr meysydd dysgu a phrofiad yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau monitro er mwyn adnabod anghenion a chynllunio ar gyfer gwelliant, er enghraifft i wella medrau digidol disgyblion. Yn yr achos hwn, mae'r cydlynydd wedi llwyddo i werthuso'r ddarpariaeth a safonau cychwynnol disgyblion, gwirio anghenion datblygiad proffesiynol staff, cynllunio camau gweithredu a'u monitro'n rheolaidd. O ganlyniad, mae medrau digidol disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos cynnydd cryf. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar gyfer yr ysgol gyfan yn ddigon miniog nac effeithiol i fynd i'r afael yn llawn â'r elfennau o'r ddarpariaeth sydd angen eu gwella.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae aelodau'r corff yn cefnogi arweinwyr a staff yn gadarn ac wedi dechrau ailymweld â'r ysgol i ymgymryd ag ychydig o weithgareddau monitro. Mae ganddynt gyfrifoldebau am agweddau penodol o flaenoriaethau cyfredol y cynllun gwella sy'n eu galluogi i gefnogi'r ysgol a chyflawni eu dyletswyddau'n briodol. O ganlyniad, maent yn chwarae rôl ragweithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn arddangos dealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r diwylliant diogelu yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i staff weithio gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr er mwyn rhannu arfer dda a thrafod syniadau ag eraill. Er enghraifft, mae athrawon y clwstwr yn ymweld ag ysgolion ei gilydd yn rheolaidd er mwyn trafod a datblygu ymhellach arferion dysgu sylfaen a medrau digidol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos priodol i hyrwyddo, galluogi a chefnogi dysgu proffesiynol y staff. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr a chydlynwyr yn ymchwilio i anghenion staff mewn perthynas â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er bod staff yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol, prin yw'r cyfleoedd iddynt gymryd

rhan mewn trafodaethau proffesiynol gydag arweinwyr i drafod eu perfformiad a'u hanghenion datblygu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023